

Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi GIG Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r prosesu sy'n arwain at gyhoeddi ystadegau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi, ac mae hefyd yn edrych ar faterion ansawdd, fel: cwmpas, cryfderau a chyfyngiadau'r data, perthnasedd a chymharu.

Cynnwys

Beth yw'r ystadegau hyn?	2
Y cyd-destun gweithredol a pholisi	3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	3
Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol	4
Cryfderau a chyfyngiadau'r data	5
Y cylch prosesu data	6
Casglu data	6
Dilysu a gwirio	7
Cyhoeddi	7
Newidiadau i'r datganiad ystadegol	8
Diwygiadau	8
Amcangyfrifon	8
Statws Ystadegau Gwladol	8
Datgelu a chyfrinachedd	9
Ansawdd	9
Perthnasedd	9
Cywirdeb	10
Amseroldeb a phrydlondeb	10
Hygyrchedd ac eglurder	11
Cymaroldeb	11
Cydlyniant	12
Dolenni defnyddiol	13
Atodiad 1: Diagram llifoedd data	14
Atodiad 2: Dilysu Data ar ôl eu cyflwyno i NWIS	15

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau gwasanaethau diagnostig a therapi hyn yn dangos data misol o ran nifer y bobl sy'n aros a'r amseroedd aros ar ddiwedd pob mis ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi penodol, fel yr adroddwyd gan fyrddau iechyd lleol y GIG. Mae rhestrau aros yn cynnwys pob claf, waeth ble mae'n byw, sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi yng Nghymru sy'n cael eu hariannu gan y GIG.

Mae'r tablau canlynol yn dangos pa wasanaethau diagnostig a therapi sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau amseroedd aros a pha bryd cawsant eu cynnwys:

Gwasanaethau diagnostig	Is-wasanaeth	Dyddiad cynnwys
Cardioleg	Ecocardiogram, Prawf Straen/Prawf Goddef Ymarfer,	Rhagfyr 2005
	Tomograffeg Gyfrifiadurol o'r Galon, Delweddu Atseiniol Magnetig o'r Galon, Sganio Darlifiad Myocardiaidd, Angiograffeg Diagnostig, Electroffisioleg Diagnostig, Ecocardiogram Traws-Esoffagaidd, Monitro Pwysau Gwaed, Cofnodi Rhythm y Galon, Ecocardiogram Straen Dobutamine	Ebrill 2018
Endosgopi Diagnostig	Broncosgopi, Colonosgopi, Cystoscopi, Sigmoidosgopi Hyblyg, Gastrosgopi	Medi 2007
Delweddu	Fflworosgopi	Ebrill 2007
Niwroffisioleg	Electromyograffeg, Astudiaethau Dargludiad Nerfau	Ebrill 2007
Mesuriadau ffisiolegol	Profion Wrodynameg, Technoleg fasnwl	Ebrill 2007
Radioleg	Enema bariwm, Tomograffeg Gyfrifiadurol, Delweddu Cyseinnedd Magnetig, Uwchsain heb fod yn un Obstetreg, Meddygaeth Niwclear,	Rhagfyr 2005
	Tomograffeg Gyfrifiadurol heb fod o'r Galon, Delweddu Cyseinnedd Magnetig heb fod o'r Galon, Meddygaeth Niwclear heb fod o'r Galon	Ebrill 2018

Gwasanaethau therapi	Is-wasanaeth	Dyddiad cynnwys
Therapiau Celfyddydol	Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl	Rhagfyr 2005
Awdioleg (Cymhorthion Clyw i Oedolion)	Ymgynghorydd, Meddyg Teulu	Rhagfyr 2005
Deieteg	Oedolion, Paediatreg	Rhagfyr 2005
Therapi Galwedigaethol	Anableddau Dysgu, Oedolion, Paediatreg, Iechyd Meddwl	Rhagfyr 2005
Ffisiotherapi	Oedolion, Paediatreg	Rhagfyr 2005
Podiatreg	Arferol, Brys	Rhagfyr 2005
Therapi Lleferydd ac Iaith	Anableddau Dysgu, Oedolion, Paediatreg, Iechyd Meddwl	Rhagfyr 2005

Cyfrifir yr amser aros o'r dyddiad y cafwyd y cais atgyfeirio tan y dyddiad:

- a) y cyflawnir y prawf diagnostig y mae'r claf wedi cael ei atgyfeirio ar ei gyfer;
- b) y gosodir y cymorth clyw; neu
- c) y mae'r claf yn dechrau ar y driniaeth gyntaf ar ôl asesiad neu archwiliad.

Cafodd profion diagnostig cardioleg ychwanegol eu cynnwys yn yr ystadegau hyn o fis Ebrill 2018 ymlaen ar ôl dau gasgliad peilot. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn [DSCN 2018/02](#)

Mae'r ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi law yn llaw â datganiad ystadegol ar amseroedd [rhwng atgyfeirio a thriniaeth](#) GIG Cymru. Yn y ddogfen [Cwestiynau Cyffredin](#), ceir gwybodaeth am sut mae amseroedd aros yn cael eu cyfrifo, sut mae'r gwasanaethau diagnostig a therapi yn ymwneud â'r llwybrau rhwng atgyfeirio i driniaeth, a pha fesurau diagnostig a therapi sy'n rhan o'r broses rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

Y cyd-destun gweithredol a pholisi

Mae [Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2018-19](#) yn cael ei ddefnyddio i fesur cyflawniad yn ystod 2018-19.

Dyma'r targedau ar gyfer yr amseroedd aros i gael gafael ar wasanaethau diagnostig a therapi (safonau gweithredu ar gyfer amseroedd aros hiraf):

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Defnyddwyr a sut defnyddir y data

Mae dealltwriaeth o dueddiadau amseroedd aros yn hanfodol i'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol.

Dyma brif ddefnyddwyr ystadegau yn ein barn ni:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau'r Cynulliad ac aelodau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru;
- GIG Cymru
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Y cyfryngau
- Dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn ffyrdd amrywiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Cyngor i Weinidogion;
- Asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau/safonau;
- Dylanwadu ar brosiectau gwella gwasanaethau o ran meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd;
- Ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau atgyfeirio gan feddygon teulu a rhoi cyngor i gleifion wrth eu hatgyfeirio ar gyfer gwasanaethau diagnostig neu therapi;
- Cyfrannu at erthyglau newyddion ynghylch amseroedd aros yng Nghymru;
- Byrddau Iechyd Lleol y GIG yn eu defnyddio i feincnodi eu hunain yn erbyn Byrddau Iechyd Lleol eraill;
- Helpu i bennu'r gwasanaeth gallai'r cyhoedd ei gael gan GIG Cymru.

Os ydych chi'n eu defnyddio ac yn teimlo nad ydy'r rhestr uchod yn eich cynnwys, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol

Mae'r broses o gasglu data am amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi yn defnyddio data gweinyddol sy'n cael eu dal gan systemau ysbytai o fewn byrddau iechyd lleol. Fel y manylir arno yn y paragraffau canlynol, mae'r byrddau iechyd yn cyflwyno data cyfanredol i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sydd wedyn yn darparu'r data i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi. Mae'r data cyfanredol yn cael eu gwirio am ddilysrwydd, fel y disgrifir yn yr adrannau isod.

Rydyn wedi defnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan [Becyn Cymorth Ansawdd Data Gweinyddol](#) Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gyflawni asesiad cychwynnol o broffil risg y data cyfanredol a ddefnyddir i gynhyrchu'r datganiad Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi.

Yn ein barn ni, risg ganolog sydd i'r data o ran eu hansawdd, ac maent yn ddata uchel eu proffil o ran diddordeb cyhoeddus. Y rhesymau am hyn yw bod safonau a diffiniadau sydd wedi'u diffinio'n dda ar waith ar gyfer y data a gasglwyd, ond cafodd y data eu casglu o nifer o safleoedd ysbyty ar draws byrddau iechyd lleol, ac efallai fod rhywfaint o amrywiad o ran sut casglwyd a phroseswyd y data mewn gwahanol safleoedd.

Yn ôl pecyn cymorth Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, mae hynny'n awgrymu dylem edrych am sicrwydd ehangach neu gynhwysfawr (A2/A3) mewn meysydd fel y broses gasglu, cyfathrebu â chyflenwyr data, dulliau sicrhau ansawdd, a dogfennaeth.

Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

- Mae safonau a diffiniadau clir wedi'u diffinio'n dda, ynghyd â chanllawiau atodol, ar waith yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#), sy'n helpu i sicrhau cysondeb data a gyflwynir gan bob bwrdd iechyd lleol ledled Cymru.
- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi'n fisol ac mewn trefn er mwyn i ddefnyddwyr weld yr ystadegau pan maent yn gyfredol ac o bennaf ddi-ddordeb.
- Mae gan yr allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi cael eu datblygu i ddiwallu angen defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru.
- Defnyddiwyd ffynonellau data gweinyddol yn effeithlon er mwyn cynhyrchu allbynnau. Y ffynhonnell data gweinyddol a ddefnyddiwyd yw'r system gweinyddu cleifion sy'n casglu data demograffeg, cofnodion meddygol a gwybodaeth ddiagnostig ar gyfer cleifion yn ysbytai Cymru.
- Cyhoeddir ystadegau manwl ar ein gwefan StatsCymru yn ôl bwrdd iechyd lleol, amser aros a math o wasanaeth.
- Mae'r data'n cynnwys pob claf (waeth ble mae'n byw) sy'n aros am y gwasanaethau hyn yng Nghymru sy'n cael eu hariannu gan y GIG.
- Mae data wedi cael eu cyhoeddi ers 2006, felly gall defnyddwyr weld tuedd tymor hir o ran amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi. Fodd bynnag, fel y nodir yn y tabl blaenorol, cynyddodd yr ystod o wasanaethau yn 2007. Bydd angen ystyried hyn wrth wneud cymariaethau dros amser.

Cyfyngiadau

- Mae'r broses o gasglu data yn defnyddio data gweinyddol sy'n cael eu dal gan systemau ysbytai. Mae hynny'n golygu bod y data wedi cael eu casglu at ddibenion gweinyddol, nid ystadegol. Felly, er y mesurau diogelwch oedd ar waith, efallai fod rhai problemau o ran ansawdd y data. Edrychwch ar yr adran [Cywirdeb](#) am ragor o wybodaeth.
- Mae'r data a ddarperir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ddata cyfanredol, sy'n cyfyngu ar y gwaith dilysu gall y Gwasanaeth ei wneud.
- Nid oes gan yr wybodaeth ar StatsCymru lawer o esboniad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa fwy cyfarwydd.
- Yn sgil y gweinyddiaethau datganoledig a'r polisïau gwahanol, ychydig o gwmpas sydd ar gyfer cymharu gwasanaethau diagnostig ar draws y DU, ac nid oes cwmpas o gwbl ar gyfer gwasanaethau therapi, gan nad yw gwledydd eraill y DU yn adrodd arnynt yn genedlaethol (edrychwch ar 'Cydlyniant' yn nes ymlaen yn y ddogfen).

Cyffredinol

Dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau misol o ffigurau amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi. Mae natur dymhorol yn berthnasol i fesurau perfformiad mewn cysylltiad ag amseroedd aros. Er enghraifft, gall tywydd gwael effeithio ar allu gwasanaeth iechyd i gynnal adnoddau dethol. Gall y ffactorau hyn effeithio ar amseroedd aros a dylid eu hystyried wrth wneud cymariaethau dros amser.

Y cylch prosesu data

Casglu data

Mae data cyfanredol yn cael eu cyflwyno'n fisol gan y byrddau iechyd lleol drwy wasanaeth cyfnewid Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r data'n defnyddio gwybodaeth reoli sy'n cael ei dal gan fyrdau iechyd lleol mewn cysylltiad â rheoli cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio ar gyfer gwasanaeth diagnostig neu therapi penodol. Darperir canllawiau i'r GIG yng Nghymru ynghylch sut dylid rheoli'r cleifion hynny a sut mae mesur ac adrodd ar y data perthnasol. Mae [Atodiad 1](#) yn dangos fersiwn syml o'r llifocedd data.

Mae'r broses ar gyfer casglu data wedi bod yn ei lle ers mis Ebrill 2004. Ers hynny mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i wella ansawdd a phrydlondeb y data a geir, ac o ganlyniad mae'r data wedi bod yn addas i'w cyhoeddi o fis Chwefror 2006 ymlaen (gan gyhoeddi data mis Rhagfyr 2005).

Yn dilyn cynllun peilot, cafodd y broses gychwynnol o gasglu data ei gorfodi gan Gylchlythyr Iechyd Cymru [WHC\(2003\)52](#), sydd hefyd yn darparu gwybodaeth am gwmpas cychwynnol y broses o gasglu data, diffiniadau a manylion am gasglu gan fyrdau iechyd lleol. Mae rhagor o ganllawiau mwy cyfoes ar gael yn [WHC\(2007\)002](#) ac ar [dudalennau Gwasanaethau Diagnostig a Therapi](#) Geiriadur Data GIG Cymru. Mae gwybodaeth am y rheolau a'r diffiniadau yng nghyswllt cyfrifo amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gael yn [WHC\(2007\)014](#).

Mae gwybodaeth am y prosesau ansawdd cyffredinol sydd ar waith mewn byrddau iechyd lleol ar gael yn eu [polisiau ansawdd data](#).

Dilysu a gwirio

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn dilysu'r data wrth iddynt gael eu llwytho i gronfa ddata ei wasanaeth cyfnewid. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau, fel a oes codau dilys wedi'u cyflwyno ar gyfer pob maes, newidiadau o fis i fis ar lefel byrddau iechyd lleol a chymariaethau ar lefel gwasanaeth, ac mae'n caniatáu i fyrddau iechyd lleol wneud gwiriadau cychwynol a chywiro eu data. Ceir gwybodaeth fanylach am y gwaith dilysu mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ei wneud yn [Atodiad 2](#).

Ar ôl i'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn Llywodraeth Cymru gael y data, maent yn cael eu gwirio eto (fel a yw data ar gyfer pob gwasanaeth ac iswasanaeth disgwylidig yn bresennol, ac a yw'r data o fewn goddefiannau wedi'u diffinio ymlaen llaw). Anfonir unrhyw ymholiadau at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a/neu fyrddau iechyd lleol. Mae hyn yn caniatáu i'r byrddau wirio a chywiro eu data neu wneud sylwadau amdanynt, er mwyn darparu gwybodaeth gyd-destunol pan fo newidiadau annisgwyl wedi digwydd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn mewnbynnu unrhyw ddata yn y cyflwyniadau. Gwneir unrhyw newidiadau gan y bwrdd iechyd lleol ac ailgyflwynir y data drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith sicrhau ansawdd mae'r Gwasanaeth yn ei wneud ar y data a ddefnyddir i gynhyrchu Ystadegau Gwladol ar gael ar [dudalennau Sicrhau Ansawdd Data](#) y Gwasanaeth.

Cyhoeddi

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan yr Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn cael eu cynhyrchu drwy grynhoi'r wybodaeth a ddarperir gan y byrddau iechyd lleol. Mae'n broses rhannol awtomataidd ond mae'r prif bwyntiau a'r sylwebaeth yn cael eu cynhyrchu ar wahân. Cyn cyhoeddi, mae'r wybodaeth yn cael ei gwirio yn derbyn y data a gyflenwyd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar [StatsCymru](#) yn cael ei chynhyrchu'n awtomatig.

Cyhoeddir y data ar gyfer y mis diweddaraf ar sail amodol a gellir eu diwygio mewn diweddariadau yn y dyfodol. Pwrpas hyn yw galluogi byrddau iechyd lleol i gyflwyno data diwygiedig os ydynt yn gwneud rhagor o waith dilysu ar ôl cyflwyno.

Mae data'n cael eu cyhoeddi'n fisol yng [Nghrynodeb Gweithgarwch a Pherfformiad y GIG](#) ac ar [StatsCymru](#). Mae [bwletin ystadegol](#) sy'n cynnwys sylwebaeth a dadansoddiad manylach yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Newidiadau i'r datganiad ystadegol

O fis Ebrill 2017 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyhoeddi ystadegau misol am berfformiad a gweithgarwch y GIG ar un diwrnod, a datganiadau dadansoddol blynyddol yn hytrach na rhai misol. Ceir rhagor o wybodaeth yn niweddariad y Prif Ystadegydd. Rydym yn croesawu adborth ar y datganiad ar ei newydd wedd ac ar unrhyw ddadansoddiad pellach a fyddai o ddiddordeb.

Diwygiadau

Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â thablau StatsCymru bob mis, a bydd unrhyw ddiwygiadau sylweddol yn cael eu nodi ar y dudalen pennawd i grynhoi.

Amcangyfrifon

Weithiau, nid yw byrddau iechyd lleol yn cyflwyno gwybodaeth gyflawni mewn pryd ar gyfer y datganiad. Pan fydd hyn yn digwydd, caiff amcangyfrif ei gynnwys yn y data a gyflwynir. Mae ffigurau sy'n cynnwys amcangyfrif yn cael eu marcio ag "(e)".

- Mae data Endosgopi Diagnostig, Deieteg, Therapi Galwedigaethol, Mesuriadau Ffisiolegol, Ffisiotherapi a Therapi Iaith a Lleferydd Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg (Bwrdd Iechyd Hywel Dda) wedi cael eu hamcangyfrif ar gyfer mis Medi 2010 – mis Mai 2011 gan ddefnyddio data o fis Awst 2010 oherwydd nad oedd modd iddo gyflwyno data, gan fod ei system casglu data wedi symud o PAS i Myrddin
- Mae data ffisiotherapi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cael eu hamcangyfrif ar gyfer mis Hydref 2012 gan ddefnyddio ei ddata o fis Medi 2012, oherwydd nad oedd modd iddo ddarparu data ffisiotherapi llawn ar gyfer mis Hydref 2012.
- Cafodd data ffisiotherapi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu hamcangyfrif ar gyfer mis Chwefror 2013 gan ddefnyddio data mis Ionawr 2013. Ni chafodd cleifion eu rhoi yn y system mewn pryd i'r cyflwyniad o ganlyniad i salwch staff yn y bwrdd iechyd lleol.
- Cafodd data radioleg a delweddu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu hamcangyfrif ar gyfer mis Mehefin 2013 gan ddefnyddio data mis Mai 2013. Roedd hyn o ganlyniad i Brifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael problemau technegol gyda'r data sylfaen.
- Cafodd data niwroffisioleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu hamcangyfrif ar gyfer mis Ebrill 2014 gan ddefnyddio data mis Mawrth 2014. Roedd hyn o ganlyniad i'r ysbyty yn symud y gwasanaeth i safle ysbyty newydd, a oedd yn golygu bod data mis Ebrill 2014 yn annibynadwy ac felly ni chyflwynodd y bwrdd iechyd lleol y data.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Datgelu a chyfrinachedd

Er bod rhai ffigurau bach yn y data a gasglwyd ac a gyflwynir, nid ystyrir yr wybodaeth yn gyfrinachol ei natur, ac nid oes gwybodaeth adnabod wedi'i chyflwyno.

Rydym yn glynu wrth ein [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#) ac egwyddor llywodraethu data elfen Dibynadwyedd y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Ansawdd

Mae'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn glynu wrth [strategaeth ansawdd](#) ac elfen Ansawdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn disgrifio chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn glynu wrthynt.

Perthnasedd

I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn bodloni anghenion y defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys

Mae'r ystadegau'n ymwneud ag agweddau penodol ar amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi a chânt eu defnyddio i fesur perfformiad yn erbyn safonau GIG Cymru – edrychwch ar dudalen gyntaf y datganiad am wybodaeth am y safonau. Mae diddordebau eraill a defnydd arall o'r data hyn yn cael eu hamlinellu'n gynharach yn yr adroddiad ansawdd.

Rydym yn annog defnyddwyr o'r ystadegau i gysylltu â ni er mwyn rhoi gwybod i ni sut maent yn defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau i fodloni holl anghenion defnyddwyr, ond mae'r tablau a gyhoeddir yn y datganiad a StatsCymru yn ceisio ateb y cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, lle bo'n bosibl, yn cyhoeddi'r newidiadau ar y rhyngwrwyd, mewn pwyllgorau ac ar rwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori'n ehangach â defnyddwyr. Rydym yn ceisio ymateb yn gyflym i newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod ein hystadegau'n aros yn berthnasol.

Rydym yn adolygu'n hallbynnau'n rheolaidd ac yn croesawu adborth.

Cywirdeb

Yr agosrwydd rhwng canlyniad a amcangyfrifir a gwir werth (anhysbys)

Gellir rhannu cywirdeb yn gyfeiliornadau samplu a chyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornad samplu. Mae cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn cynnwys pethau fel cyfeiliornad cwmpas, cyfeiliornad dim ymateb, cyfeiliornad mesur, a chyfeiliornad prosesu.

Mae hwn yn gasgliad sefydledig yn seiliedig ar ddata 100%, hy nid sampl.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, mae pob bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ac nid oes angen amcangyfrif ffigurau. Lle defnyddir amcangyfrifon, mae hynny oherwydd nad yw bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ar gyfer mis penodol, ac mae hynny'n cael eu nodi'n glir yn y datganiad.

Nid ydym wedi ymchwilio i gyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu. Fodd bynnag, gallai cyfeiliornadau prosesu ddigwydd lle mai clerod mewn ysbytai yn mewnbynnu data'n anghywir yn eu systemau gweinyddol, neu gallai cyfeiliornadau mesur ddigwydd o ganlyniad i staff mewn ysbytai yn dehongli diffiniadau'n wahanol. Er mwyn lleihau cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu, darperir safonau a [chanllawiau](#) am y broses o gasglu data, a hynny i geisio sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â manyleb y cytunir arni. Mae'r Bwrdd Safonau Gwybodaeth wedi adolygu a chymeradwyo'r safonau sy'n berthnasol i'r broses hon o gasglu data. Pan fo cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn effeithio ar y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu llunio barn ddeallus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau. Mae mwy o wybodaeth am ddiffiniadau, casglu data a dehongli'r safonau data y cytunir arnynt yn genedlaethol y mae'r GIG yng Nghymru wedi'u mabwysiadu ar gael yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#).

Mae'r allbynnau'n cynnwys gwybodaeth allweddol am ansawdd o ran cwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn deall ac esbonio symudiadau yn y data a gwirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau a gyhoeddir yn gywir.

Mae'r nodiadau ar ddiwedd y datganiad hwn yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr a yw'r allbynnau wedi cael eu diwygio ai peidio (nodir gyda 'r'). Byddwn hefyd yn rhoi syniad o faint y diwygiad rhwng y datganiad diweddaraf a'r datganiad blaenorol. Mae data'n cael eu diwygio am nifer o resymau, fel: data'n cael eu dychwelyd yn hwyr, amcangyfrifon anghywir neu ôl-ddata'n cael eu diwygio.

Yn yr achos annhebygol fod data anghywir yn cael eu cyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael gwybod yn unol â threfniadau [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddwyd y data mewn gwirionedd a'r dyddiad cyhoeddi a oedd wedi'i nodi i gychwyn

Mae'r holl allbynnau'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer drwy gyhoeddi ymlaen llaw ddyddiad y cyhoeddi ar dudalennau gwe [l'w cyhoeddi cyn hir](#). Yn ogystal, petai angen gohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn trefniadau [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod amser perthnasol. Mae data ar gyfer safle diwedd y mis yn cael eu cyhoeddi tua chwe wythnos ar ôl y dyddiad cyfeirio. Mae hyn yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd wneud gwaith dilysu sylweddol.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae hygyrchedd yn cyfeirio at ba mor hawdd ydyw i'r defnyddwyr gael gafael ar y data, a hefyd ym mha fformat(au) y mae'r data ar gael ynddynt ac a oes gwybodaeth ategol ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metaddata, y darluniadau a'r cyngor atodol.

Mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi mewn dull hygyrch a threfnus ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar y dyddiad cyhoeddi. Nodir ymlaen llaw y bydd yr ystadegau yn cael eu cyhoeddi. Mae porthydd RSS yn tynnu sylw defnyddwyr sydd wedi cofrestru at y cyhoeddiad hwn. Ar yr un pryd, mae'r datganiadau chwarterol yn cael eu cyhoeddi ar yr Hyb Cyhoeddiadau Ystadegau Gwladol. Mae'r holl ddatganiadau ar gael i'w llwytho i lawr am ddim.

Mae data manylach ar gael ar yr un pryd ar wefan StatsCymru a gellir eu trin ar-lein neu eu llwytho i lawr ar ffurf taenlenni i'w defnyddio all-lein.

Anelwn at ddefnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â [pholisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth am yr ystadegau ar gael drwy gysylltu â'r staff perthnasol sy'n cael eu nodi ar y datganiad neu drwy stats.healthinfo@wales.gsi.gov.uk

Cymaroldeb

I ba raddau y mae modd cytuno ar ddata dros amser a pharth.

Pan fo'r data a ddarperir yn newid, caiff hyn ei ddangos yn glir yn yr allbynnau. Lle ceir rhybudd ymlaen llaw o newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth debyg am wasanaethau diagnostig ar gael o rannau eraill o'r DU ond nid oes modd cymharu'r data oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal – edrychwch ar [Cydlyniant](#) isod. Nid yw amseroedd aros gwasanaethau therapi'n cael eu hadrodd yng ngwledydd eraill y DU.

Mae diffiniadau a safonau y cytunwyd arnynt o fewn Cymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws y byrddau iechyd lleol.

Cydlyniant

I ba raddau y mae data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

Bob mis, mae'r holl ddata'n cael eu casglu o'r un ffynonellau ac yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol. Byddant hefyd yn gydlynol o fewn ac ar draws sefydliadau. Pan fo newidiadau i ddiffiniadau neu gwmpas, rydym yn nodi hynny'n glir yn y datganiad ac yn ychwanegu cafeatau priodol at y data.

Data a gesglir gan wledydd eraill y DU

Mae gwledydd eraill y DU yn mesur amseroedd aros gwasanaethau diagnostig hefyd. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Nid yw data amseroedd aros gwasanaethau therapi'n cael eu casglu na'u hadrodd yn genedlaethol yng ngwledydd eraill y DU,

Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp yw edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r gymhariaeth o ddata diagnostig rhwng y gwledydd ar gael yma: [Ystadegau Amseroedd Aros Iechyd](#).

Lloegr

Yn Lloegr, [mae ystadegau amseroedd aros profion diagnostig yn cael eu cyhoeddi'n fisol gan yr Adran Iechyd](#).

Pwrpas casglu data yw mesur gweithgarwch ac amseroedd aros gwasanaethau diagnostig i fonitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r amser aros safonol rhwng atgyfeirio a thriniaeth, sef 18 wythnos.

Mae'r broses o gasglu data'n cynnwys profion/gweithdrefnau lle mae prif bwrpas derbyn neu apwyntiad yw diagnosteg, waeth beth fo'r llwybr neu'r lleoliad atgyfeirio. Mae'r rhestr o wasanaethau diagnostig yr adroddir arnynt yn Lloegr ychydig yn wahanol i'r un yng Nghymru.

Yr Alban

Yn yr Alban, [mae ystadegau amseroedd aros profion diagnostig yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol gan Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth yr Alban](#).

Mae Amseroedd Aros Diagnostig yn elfen bwysig o gyflawni'r amser aros safonol rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn yr Alban, sef 18 wythnos. Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban amser aros hiraf, sef 9 wythnos, ar gyfer yr 8 ymchwiliad a phrawf diagnostig allweddol o 31 Rhagfyr 2007 ymlaen. Cafodd yr amser aros hwn ei leihau i 6 wythnos o 31 Mawrth 2009 ymlaen.

Mae'r rhestr o wasanaethau diagnostig yr adroddir arnynt yn Lloegr yn llai o lawer na'r un yng Nghymru.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, [mae ystadegau amseroedd aros profion diagnostig yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd \(DHSSPS\)](#).

Mae'r data yn adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed amser Gweinidogol ar gyfer adroddiadau diagnostig. O fis Ebrill 2015 ymlaen, nodir y targed na ddylai unrhyw glaf aros yn hirach na naw wythnos am brawf diagnostig, ac y dylid adrodd ar bob prawf diagnostig cyn pen 2 ddiwrnod ar ôl cynnal y prawf.

Mae'r rhestr o wasanaethau diagnostig yr adroddir arnynt yng Ngogledd Iwerddon ychydig yn wahanol i'r un yng Nghymru.

Dolenni defnyddiol

[Geiriadur Data GIG Cymru](#)

[Geiriadur Data GIG Cymru: tudalennau ar Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi](#)

Cylchlythyrau Iechyd Cymru ar Wasanaethau Diagnostig a Therapi: [WHC\(2003\)52](#), [WHC\(2007\)002](#), [WHC\(2007\)004](#), [WHC\(2007\)014](#)

[Bwletin Ystadegol Gwasanaethau Diagnostig a Therapi](#)

[Bwletin Ystadegol Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth](#)

[Cwestiynau Cyffredin mewn cysylltiad ag Amseroedd Aros ar gyfer Gwasanaethau'r GIG](#)

[StatsCymru](#)

[Gwella Ansawdd Gwybodaeth](#)

[Safonau Gwybodaeth y GIG](#)

[Polisiâu Ansawdd Data Byrddau Iechyd Lleol](#)

[Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: Sicrwydd Ansawdd Data Gweinyddol](#)

Gwerthuso

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am unrhyw rai o'n hystadegau. Cysylltwch â ni ar ystadegau.iechyd@llyw.cymru


Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd ddiwethaf: Mehefin 2018



Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

Atodiad 1: Diagram llifoedd data



Cam 1:
Cofnodi data yn systemau ysbytai

Cam 2:
Cymeradwyo'r data fel cofnod cywir
Echdynnu data o systemau a'u hanfon at NWIS

Cam 3:
NWIS yn dilysu ar lefel genedlaethol, lefel bwrdd iechyd lleol a lefel gwasanaeth
Llwytho i setiau data cenedlaethol

Cam 4:
Dilysiad pellach
Prosesu data
Cyhoeddi data

Atodiad 2: Dilysu Data ar ôl eu cyflwyno i NWIS

Dogfen Frifio

Dilysu Data Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi

Ar ôl cyflwyno i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Diben

Mae'r ddogfen hon yn rhoi disgrifiad cryno o'r broses o ddilysu'r data a gesglir drwy set ddata Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi ar ôl cyflwyno i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Cefndir

Mae data amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi yn cael eu casglu gan fyrddau iechyd a'u cyflwyno'n ganolog i NWIS yn fisol. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys set ddata sy'n cynrychioli ciplun o gofnodion rhestrau aros fel sy'n gywir ar ddiwrnod olaf y mis. Caiff ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Gwybodeg ar 11^{eg} diwrnod gwaith y mis canlynol drwy Wasanaeth Cyfnewid Data GIG Cymru (NWDSS).

Prif Broses Ddilysu

Disgwylir i fyrddau iechyd drosglwyddo eu ffeil i NWDSS gan ddefnyddio'r nodwedd Llwytho Ffeil i Fyny yn Ddiogel ar y wefan gysylltiedig¹ ar neu cyn y dyddiad cyflwyno olaf. Pan fydd y ffeil wedi llwytho, gall y bwrdd iechyd wirio i weld a oes unrhyw wallau yn y data drwy edrych ar adroddiad gwallau NWDSS. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwiriadau ansawdd data i fesur ansawdd y data a gyflwynir. Mae rhestr lawn o'r gwiriadau hyn i'w gweld yn [Atodiad A](#).

Os caiff unrhyw gofnodion eu fflagio fel bod yn wallau, caiff y ffeil ddata gyfan ei gwrthod gan y system, ac ni chaiff ei phrosesu i'r gronfa ddata genedlaethol. Bydd rhaid i fyrddau iechyd ddiwygio eu ffeil ac ailgyflwyno. Gallant wneud hyn sawl gwaith nes eu bod wedi cael gwared ar y gwallau hyn yn gyfan gwbl. Er bod y Gwasanaeth Gwybodeg yn gallu rhoi cyngor i'r bwrdd iechyd yn hyn o beth, y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am ansawdd y cyflwyniad yn y pen draw.

Ail Broses Ddilysu

Os bydd y cyflwyniad yn llwytho heb unrhyw wallau, caiff ei ddangos fel "wedi cwblhau" ar adroddiad NWDSS. Mae hyn yn dechrau'r broses awtomataidd o lwytho'r data drwy NWDSS.

Pan fydd y data wedi llwytho i dablau SQL ar weinydd NWDSS, cynhelir dadansoddiad pellach i asesu ansawdd y data. Mae Adroddiad Cyflawnrwydd Data yn dangos ffigurau lefel uchel ar lefel bwrdd iechyd. Gall unrhyw gynnydd neu ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y cofnodion o'i gymharu â'r mis adrodd blaenorol gael ei nodi yma, a'i adrodd yn ôl i'r bwrdd iechyd. Mae'r broses hon yn digwydd yn syth ar ôl llwytho er mwyn rhoi cyfle i'r bwrdd iechyd ailgyflwyno ei ffeil.

¹ <https://nwdss.wales.nhs.uk/NwdssMerge/default.aspx> (ar gael i ddefnyddwyr GIG Cymru yn unig)

Ar ôl pasio'r cam hwn, caiff y data eu prosesu i'r gronfa ddata genedlaethol. Ar y pwynt hwn, cynhyrchir Adroddiad Dilysu manwl, sy'n cael ei anfon at Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn cynnwys rhestr o gynnydd neu ostyngiad mewn niferoedd o'i gymharu â'r mis blaenorol, ar lefel safle a gwasanaeth. Gofynnir i bob bwrdd iechyd perthnasol wneud sylw am y newidiadau hyn. Mae gan y bwrdd iechyd gyfnod adolygu o 1 wythnos ar ôl y dyddiad cyflwyno i weld yr Adroddiad Dilysu a darparu adborth. Os ydy'r adroddiad yn nodi meysydd lle gallai ansawdd y data gael ei wella, cânt ailgyflwyno eu data yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Ar ôl i'r cyfnod dilysu 1 wythnos ddod i ben, caiff unrhyw ailgyflwyniadau eu prosesu i'r gronfa ddata genedlaethol. Yma, caiff y data eu cadw mewn warws data SQL ar y gweinydd dadansoddi. Mae'r Adroddiad Dilysu sy'n cynnwys adborth y bwrdd iechyd wedyn yn cael ei ail-anfon at Lywodraeth Cymru.

Adrodd a Chyhoeddi

Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, caiff echdyniad ei gynhyrchu o'r gronfa ddata i'w hadrodd i Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn gweithredu fel gwiriad sicrhau ansawdd terfynol, gydag unrhyw broblemau ansawdd data heb eu datrys yn cael eu trosglwyddo yn ôl i'r bwrdd iechyd. Yna caiff yr echdyniad ei anfon at yr Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd er mwyn ei gyhoeddi yn yr ystadegau gwladol.

Atodiad A: Rhestr o wiriadau llwytho data ar gyfer Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi ar NWDSS

Invalid Trust Code

Invalid Site Name

Invalid Service Header

Invalid Sub Heading Check

Invalid Weeks Wait Band

Duplicate Found

Invalid Waiting Time Count

Multiple Return Dates Detected

Multiple Trust Codes Detected

Trust Code not matching account code

Invalid Sub Heading Code within Service Heading Code

Return Date in Future

Invalid Return Date

Invalid Data Ref

Invalid Data Ref for service heading

Date not current or previous